## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (MAN I'R DWYRAIN O DREBERFEDD I NANT-Y-DUGOED, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, rhwng ffin Powys/Swydd Amwythig, man i'r dwyrain o Dreberfedd, a ffin Powys/Gwynedd yn Nant-y-dugoed, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r A458 o ffin Powys/Swydd Amwythig, man i'r dwyrain o Dreberfedd, hyd at ffin Powys/Gwynedd yn Nant-y-dugoed. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Gorffennaf 2026. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw am gyfnod hwyaf o 18 mis. Bydd hysbysiad am y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (EAST OF MIDDLETOWN TO NANT-Y-DUGOED, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road between the Powys/Shropshire border, east of Middletown and the Powys/Gwynedd border at Nant-y-Dugoed, Powys.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A458 from the Powys/Shropshire border east of Middletown to the Powys/Gwynedd border at Nant-y-Dugoed. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 10 July 2026. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate intermittently from 08:00 hours on that date for a maximum duration of 18 months. Notice of the restrictions and prohibition will be displayed before the start of any works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government